

WEBB, HARRI (1920 - 1994), llyfrgellydd a bardd

Enw: Harri Webb
Dyddiad geni: 1920
Dyddiad marw: 1994
Rhiant: William John Webb
Rhiant: Lucy Irene Webb (née Gibbs)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llyfrgellydd a bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Ganwyd Harri Webb ar 7 Medi 1920 yn 45 Heol T Coch, Sgeti, Abertawe, yn fab i William John Webb (1890-1956), fforman ym mhwerdy Tir John North yn Abertawe a hanai o deulu ffermio ym Mhenrhyn Gŵyr, a'i wraig Lucy Irene (g. Gibbs, 1890-1939), merch i weithiwr ar ystâd Kilvrough. Symudodd y teulu yn 1922 i 58 Catherine Street yn ardal Sain Helen o Abertawe. Ei enw bedydd oedd Harry, a mabwysiodd y sillafiad Cymraeg Harri tua 1950 yn fuan ar ôl iddo ddechrau cyhoeddi ei farddoniaeth. Roedd ganddo hanner brawd, Michael Webb, o ail briodas ei dad.

Aeth Webb i ysgol gynradd yn Stryd Rhydychen, ac i Ysgol Uwchradd y Bechgyn Glanmôr yn yr Uplands. Roedd yn ddisgybl eithriadol ac ef oedd y cyntaf o'i ysgol i ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Rhydychen. Cyhoeddodd y prifathro hanner diwrnod o wyliau i'r ysgol gyfan i ddathlu ei gamp, digwyddiad a fu'n destun balchder parhaus i Webb. Yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen, astudiodd ieithoedd modern ac, yn ei eiriau ei hun, 'gweithiodd, meddwodd a dysgodd ysmegu.' Amharwyd ar ei amser yn Rhydychen yn 1939 gan farwolath ei fam, yr oedd yn meddwl y byd ohoni. Dyfarnwyd gradd yn y trydydd dosbarth iddo ac agorodd rhwyg rhyngddo a'i dad. Ni fu cymodi rhyngddynt ac nid aeth Harri i angladd ei dad.

Ar ôl graddio gwirfoddolodd Webb i'r Llynges Frenhinol gan wasanaethu ar nifer o longau yn ystod y rhyfel. Roedd ar fwrdd *HMS Tetcott*, distrywlong 'Hunt-class' Teip 2, y llong olaf i adael Tobruk pan syrthiodd i'r Almaenwyr. Flynyddoedd yn ddiweddarach cofiodd y profiad arswydus o gael ei blymfomio ar y môr ond mynegodd edmygedd mawr tuag at Rommel. Ar ôl y rhyfel cafodd ei ddadfyddino i'r Alban lle arhosodd am sbel yn ansicr sut i symud ymlaen â'i fywyd.

Dychwelodd i Gymru yn 1946 a chymryd swydd yng Nghaerfyrddin gyda Keidrych Rhys, sefydlydd y cylchgrawn [Wales](#) a'r Druid Press, a hyrwyddwr cynnar llenyddiaeth 'Eingl-Gymreig', fel y'i gelwid ar y pryd. Roedd Webb wedi dechrau sgrifennu barddoniaeth yn ystod y rhyfel, a chyhoeddwyd ei gerdd gyntaf yn 1949.

Ym 1954 symudodd i Ferthyr Tudful i gymryd swydd fel llyfrgellydd yn Nowlais, galwedigaeth a ddilynodd am ugain mlynedd heb fyth ennill cymhwyster proffesiynol. Bu'n byw yn Garth Newydd, tua'r Ffordd Aberhonddu nad oedd fel petai'n perthyn i neb ac a ddaeth yn gomiwn cenedlaetholwyr, a'i drigolion yn cynnwys Meic Stephens a ddaeth yn gyfaill agos iddo ac yn olygydd ar ei waith.

Wedi deng mlynedd yn Nowlais symudodd Webb i Lyfrgell Aberpennar lle'r arhosodd tan 1974, gan ymroi wedyn i

sgrifennu'n llawn-amser (sgrïptiau teledu a newyddiaduraeth yn ogystal â barddoniaeth). Roedd Webb wrth ei fodd fel llyfrgellydd, ond cymerodd y gwaith o ddifrif hefyd gan foderneiddio'r gwasanaeth trwy gaffael LPs i ateb y gofyn newydd am gerddoriaeth a chyflenwad o lyfrau a chylchgronau a apeliai at ferched.

Ei gasgliad cyntaf o farddoniaeth, a'i orau, oedd *The Green Desert* (1969). Dilynwyd hwn gan *A Crown for Branwen* (1974), *Rampage and Revel* (1977) a *Poetry and Points* yn 1983. Ymddangosodd llawer o'i gerddi am y tro cyntaf yn *Poetry Wales* yn ogystal â nifer o gylchgronau a phapurau newydd eraill. Cyhoeddwyd ei *Collected Poems* (1995) ar ôl ei farwolaeth, wedi ei olygu gan Meic Stephens. Daeth Webb yn adnabyddus i gyhoedd llenyddol Cymru yn y 1970au trwy ei ymddangosiadau cyson ar *Poems and Pints* BBC Cymru, rhaglen deledu a ddaeth â barddoniaeth a chomedï i ystafelloedd byw y genedl.

Roedd Webb yn genedlaetholwr milwriaethus, yn weithgar ym Mhlaid Cymru ac yn olygydd o 1962 i 1964 ar ei bapur, *The Welsh Nation*, a ddarparodd lwyfan iddo fynegi ei farn yn ddi-flewyn-ar-dafod. Safodd yn ymgeisydd seneddol yn etholiad cyffredinol 1970 ond, mewn gwirionedd, roedd Plaid Cymru'n rhy ddof iddo. Trwy'r 1950au roedd wedi bod yn rhan o fudiad Gweriniaethol Cymru - a gynhelid gan lond dwrn o bobl megis Gwilym Prys Davies, Cliff Bere, Huw Davies, Ithel Davies - a golygodd ei bapur newydd deufisol. Ni lwyddodd y mudiad i ennill cefnogaeth ar lawr gwlad, ac yn y pen draw symudodd Harri ymlaen i Blaid Cymru fel ail orau realistaidd.

Roedd Webb yr un mor ddadleugar yn ei farn am lenyddiaeth ac yr oedd am wleidyddiaeth. Roedd yn ddirmygus tuag at [Dylan Thomas](#) gan ei ystyried yn 'amherthnasol', a phrin yn llai dibrisiol o [R. S. Thomas](#); er iddynt rannu'r un safbwynt gwleidyddol i raddau helaeth, roedd yn gas ganddo ddifrifoldeb sychdduwiol yr offeiriad.

Roedd cerddi Webb yn ferw o hiwmor a dychan, ond gallai hefyd sgrifennu'n gain gyda dyfnder a harddwch tyner. Sgrifennai am Gymru ac ar gyfer Cymru yn unig: petai bardd cenedlaethol yr adeg honno ef fyddai'r dewis cyntaf si r o fod. Saesneg oedd iaith y cyfan bron o'i farddoniaeth, er i'w gerdd Gymraeg wych 'Colli Iaith' ddod yn glasur a berfformiwyd yn aml wedi ei gosod i gerddoriaeth gan [Meredydd Evans](#) a'i chanu gan Heather Jones. Yn ei flynyddoedd olaf tueddai i ddilorni'r Saesneg gan honni mai yn y Gymraeg yr oedd yr unig waith o bwys, safbwynt gwleidyddol yn hytrach na llenyddol. Roedd wedi meistrolï'r Gymraeg gan ddarllen yn helaeth a chyfieithu ei barddoniaeth, ac ymfalchïai yn nhafodiaith Dowlais, y math puraf o Gymraeg mewn bodolaeth yn ei farn ef.

Roedd ei olwg ar Gymru'n gyfyngedig yn ddaearyddol i gymoedd y De, Abertawe a Phenrhyn G yr. Roedd yn wrth-Seisnig ond ni hoffai bobl gogledd Cymru chwaith a lluniodd bennill, 'Please Keep your Gog on a Lead'. [Robert Williams Parry](#) oedd bardd gorau Cymru yn ei farn ef, ac roedd ei edmygedd at [Waldo Williams](#) yn ymylu ar arwr-addoliaeth. Testun gofid mwyaf Webb oedd y ffaith fod llun o'r ddau gyda'i gilydd wedi methu datblygu, digwyddiad a gofnododd yn ei gerdd 'Waldo'.

Yn 1972 symudodd Webb i Gwmbach yng Nghwm Rhondda lle'r arhosodd tan ei ddyddiau olaf. Dirywiodd ei iechyd yn dilyn strôc yn 1986, ac er na sgrifennai ond ychydig daliodd ati i ddarllen yn awchus; roedd ei fflat yn llawn o silffoedd llyfrgell ymhob man. Aeth i gartref nyrsio yn Abertawe ychydig cyn ei farwolaeth ar 31 Rhagfyr 1994. Fe'i claddwyd yn Eglwys y Santes Fair ym Mhennard, Penrhyn G yr, ar 6 Ionawr 1995.

Awdur

Desmond Clifford

Ffynonellau

Brian Morris, *Harri Webb* (Cardiff 1993)

Harri Webb, Meic Stephens (gol.), *Harri Webb: collected poems* (Llandysul 1995)

Harri Webb, Meic Stephens (gol.), *No half-way house: Harri Webb: selected political journalism* (Ceredigion 1997)

D. Clifford, cyfweiliad gyda Harri Webb, 11 Mehefin, 1990

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Harri Webb](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Harri Webb Papers](#)

Archifau LIGC: [Harri Webb Papers \(2004 donation\)](#)

VIAF: [117220852](#)

Wikidata: [Q3127737](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2023-01-18

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

